Senedd Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

—

Welsh Parliament
External Affairs and Additional Legislation Committee

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

30 Mawrth 2021

Annwyl Jeremy,

Cytundebau Rhyngwladol

Ers mis Ionawr 2021, mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi ystyried nifer o gytundebau rhyngwladol, gan gynnwys:

- Cytundeb ar Barhad Masnach rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Chanada;
- Cytundeb ar y Fasnach Mewn Nwyddau rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Gwlad yr Iâ a Theyrnas Norwy;
- Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Twrci;
- Cytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Gwlad yr Iâ ynghylch Gwasanaethau Awyr; a
- Chytundeb rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Theyrnas Norwy ynghylch Gwasanaethau Awyr.

Yn dilyn asesiad arferol y Pwyllgor o gytundebau rhyngwladol y DU yn 2021, penderfynodd y Pwyllgor ofyn am ragor o wybodaeth gennych am nifer o faterion a amlinellir isod.

Gan fod y Pwyllgor wedi cynnal ei gyfarfod olaf, byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon unrhyw ymateb at Glerc y Pwyllgor. Bydd y Clerc yn cadw'r ohebiaeth ac yn sicrhau y bydd yn cael sylw'r pwyllgor perthnasol yn y Chweched Senedd.

Cymalau adolygu

Mae nifer o'r cytundebau uchod yn cynnwys cymalau adolygu sy'n golygu y bydd trafodaethau'n cael eu hailagor eto yn y dyfodol. Mae'r cymalau adolygu ym mhob cytundeb yn amrywio o ran eu cwmpas. Er enghraifft, mae'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Singapôr yn ymrwymo'r ddwy ochr i adolygu eu hymrwymiadau o ran diogelu buddsoddiad o fewn dwy flynedd, tra bod y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Thwrci yn cynnwys cymalau adolygu mwy cynhwysfawr sy'n cwmpasu ystod eang o feysydd megis masnach mewn gwasanaethau, nwyddau amaethyddol, buddsoddi a materion llafur.

Cytunodd y Pwyllgor i geisio gwybodaeth ynghylch pa waith paratoi y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i asesu sut y gellid gwella'r cytundebau hyn ymhellach er budd busnesau yng Nghymru. At hynny, pa rôl fydd gan Lywodraeth Cymru mewn unrhyw rownd newydd o drafodaethau, a sut mae hyn yn cymharu â lefel yr ymgysylltu a gafwyd yn ystod y trafodaethau cytundeb parhad.

Cytundeb Masnach Rydd rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Twrci

O ganlyniad i'r berthynas fasnachu agos rhwng Twrci â'r UE, nid oedd modd trosglwyddo'n llawn y trefniadau a oedd eisoes yn bodoli. Er enghraifft, mae'r Cytundeb rhwng y DU a Thwrci yn troi cytundeb undeb tollau'r UE a Thwrci yn gytundeb masnach rydd. O ganlyniad, cyflwynwyd gofynion rheolau tarddiad ar nwyddau diwydiannol a fasnechir rhwng y DU a Thwrci. Mae adroddiad Senedd y DU ynghylch y cytundeb yn nodi y gallai'r newid o Undeb Tollau i Gytundeb Masnach Rydd gael effeithiau mwy sylweddol ar y fasnach mewn nwyddau a oedd gynt yn cael eu masnachu o fewn yr Undeb Tollau.

Cytunwyd y byddai'r darpariaethau Rhwystrau Technegol i Fasnach yn y Cytundeb rhwng y DU a Thwrci yn cael eu seilio dros dro ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Rwystrau Technegol i Fasnach, hyd nes y gellir diweddaru'r darpariaethau yn unol â'r rhai y cytunwyd arnynt yng Nghytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE. Mae hyn yn ganlyniad ymrwymiadau presennol Twrci i gysoni â chyfraith yr UE ar gyfer y rhan fwyaf o gynhyrchion er mwyn sicrhau masnach ddirwystr o fewn undeb tollau'r UE.

O ystyried pwysigrwydd masnach rhwng Cymru a Thwrci, cytunodd y Pwyllgor i geisio rhagor o wybodaeth ynghylch a yw Llywodraeth Cymru wedi asesu'r effaith y bydd y newid yn y berthynas rhwng y DU a Thwrci yn ei chael ar fusnesau a chadwyni cyflenwi.

Cytundebau rhwng y DU a gwledydd eraill ynghylch Gwasanaethau Awyr

Yn ddiweddar mae'r DU wedi cwblhau cytundebau ar wahân ar gyfer gwasanaethau awyr gyda Gwlad yr Iâ a Norwy. Eu diben yw disodli trefniadau blaenorol o'r cyfnod pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth yr UE – gan sicrhau parhad hawliau gwasanaethau awyr a rhoi'r fframwaith mewn cyfraith ryngwladol ar gyfer gwasanaethau awyr rhwng ac o fewn y DU a Gwlad yr Iâ a'r DU a Norwy, a thu hwnt iddynt. O ran ymgynghoriad Llywodraeth y DU â'r gweinyddiaethau datganoledig, mae'r ddau Femorandwm Esboniadol yn nodi bod y gweinyddiaethau datganoledig wedi cael eu 'cadw'n ymwybodol' o'r rhaglen i bontio o gytundebau gwasanaethau awyr a negodwyd gan yr UE.

Cytunodd y Pwyllgor i geisio rhagor o wybodaeth am ffurf y trefniant hwn ac a yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl cytundebau tebyg yn y dyfodol. At hynny, cytunodd y Pwyllgor i geisio barn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'n fodlon bod y dull hwn yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'w barn ac effaith y cytundebau newydd ar wasanaethau awyr Cymru.

Diolch am ystyried y ceisiadau hyn am ragor o wybodaeth. Bydd eich ymateb o gymorth i bwyllgor y Chweched Senedd sy'n gyfrifol am ystyried cytundebau rhyngwladol.

Yn gywir,



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.